# Cynllun yr Iaith Gymraeg

# Cynllun Tir Coed

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn
gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar
Ionawr 29ain, 2010

## Cyflwyniad

Mae Tir Coed yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen 1115229), â sefydlwyd gan bartneriaeth o asiantaethau gwledig yn 1999. Trwy hwyluso a gweithio mewn partneriaeth, mae Tir Coed yn datblygu mentrau coetirol ar gyfer cymunedau dan anfantais yng nghefn gwlad Cymru. Mae Tir Coed yn defnyddio un o'r adnoddau mwyaf parod sydd gennym, sydd hyd yn hyn heb ei ddefnyddio i'r llawn – coedlannau Cymru – yn ffocws ac yn le i bobl gyfarfod er mwyn dysgu sgiliau newydd, tra'n mwynhau'r buddiannau therapiwtig a iechyd uniongyrchol a geir o weithgareddau yn y coed.

## Rhagarweiniad

Mae Tir Coed yn anelu am gydraddoldeb ieithyddol. Wrth wneud y datganiad hwn, mae Tir Coed yn adnabod bod angen hyfforddiant a chefnogaeth ar y staff i gyrraedd y nôd.
Ym Mawrth, 2009, mae Tir Coed yn cyflogi 4 aelod o staff rhan amser yn ei 2 swyddfa yng ngorllewin Cymru. Mae 1 aelod o'r staff yn rhugl yn y Gymraeg.

## Datganiad Polisi

Bwriada Tir Coed ymdrîn â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mhob agwedd o'i gwaith, o weinyddu i ddehongli, wrth gyflogi ac wrth ymdrîn â'r cyhoedd. Bydd copi o Gynllun yr Iaith Gymraeg yn cael ei ddarparu ar gyfer pob aelod o staff, gwirfoddolwyr, Darparwyr Gwasanaeth dan gytundeb a Chyfarwyddwyr.

- **Cyfathrebu**
    - **Ysgrifenedig**
      Bydd pob cyfathrebiad ysgrifenedig a gyflwynir yn y Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg wedi ei lofnodi. (Mae hyn yn cynnwys cyfathrebiadau e-bost.)

- **Ffôn**

  Bydd neges dwyieithog ar gael ym mhob swyddfa Tir Coed. Bydd pob galwad yn cael ei hateb yn ddwyieithog. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn. Rhoddir yr hawl i'r sawl sydd yn dymuno parhau i gyfathrebu yn y Gymraeg i wneud hynny.

  Os nad oes yna siaradwr Cymraeg ar gael i'w cynorthwyo, yna gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg gysylltu â hwy mewn amser teg a chyfleus.

- **Cyfathrebiadau uniongyrchol**

  Pan nad oes yna siaradwr Cymraeg ar gael i gynorthwyo yn un o swyddfeydd Tir Coed, yna bydd apwyntiad yn cael ei wneud lle y gellir gynnig y wasanaeth hon. Os nad ellir cynnig hyn oddi-fewn i 5 niwrnod gwaith, yna bydd Tir Coed yn esbonio'r sefyllfa i ddefnyddiwr y gwasanaeth ac yn cynnig y dewis o naill-ai darparu cyfieithydd neu i barhau trwy gyfrwng y Saesneg.

- **Digwyddiadau**

  Cyflwynir pob un o ddigwyddiadau Tir Coed yn ddwyieithog pan fo'n addas, cyn belled â bod Arweinyddion wedi eu hyfforddi â'r sgiliau angenrheidiol i gynnig gwasanaeth dwyieithog. Bydd yn eglur bod yna groeso i siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar bob darn o ddogfennaeth ar gyfer digwyddiadau. Bydd asesiad o'r angen am offer cyfieithu yn cael ei wneud cyn y digwyddiadau a bydd cyfleuster cyfieithu ar gael pan fo'n addas. Bydd pob deunydd hysbyseb ar gyfer digwyddiadau yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog.

## • Delwedd Gyhoeddus

- **Unfathiant Corfforaethol**

  Mae gan Cynllun Tir Coed delwedd cyhoeddus Cymreig. Mae'r logo yn portreadu tirwedd, gyda'r geiriau "Tir Coed" islaw yn uniaith Gymraeg. Ar hyn o bryd mae deunydd corfforaethol Tir Coed yn rhannol ddwyieithog. Mi fydd Tir Coed yn sicrhau bod cardiau busnes y staff a deunyddiau corfforaethol eraill yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog pan daw amser eu hadnewyddu.

Bydd pob arwydd sefydlog yn ddwyieithog gan drin y ddwy iaith yn gyfartal o safbwynt maint, fformat ac eglurder. Bydd y Gymraeg i'w weld o flaen neu uwchben y Saesneg.
Bydd pob arwydd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu harddangos yn ddwyieithog yn yr un modd a nodir uchod.

- **Cyhoeddiadau**
  Bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cyflwyno yn yr un maint ffont ym mhob cyhoeddiad dwyieithog.
  Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gael yn ddwyieithog.
  Ar hyn o bryd, mae Tir Coed yn paratoi Adroddiadau Cynnydd yn chwarterol. Er mwyn targedu ein cyllid cyfieithu at farchnata a hyrwyddo gweithgareddau Tir Coed i'r cyhoedd, paratoir Crynodebau Gweithredol yn unig o'r Adroddiadau Cynnydd yn ddwyieithog.

- **Datganiadau i'r Wasg**
  Bydd datganiadau i'r wasg, papurau newydd ac i'r cyfryngau yn cael eu cynhyrchu yn iaith yr argraffiad/darllediad.
  Gwneir pob ymdrech i sicrháu bod yna siaradwr Cymraeg ar gael i'r cyfryngau Cymraeg

- **Marchnata**
  Bydd deunyddiau marchnata, fel ffurflenni, posteri, stondinau arddangos a paneli gwybodaeth yn cael eu dylunio yn ddwyieithog, i'r un safon o argraffu a'r un maint ffont, ansawdd ac eglurder, er mwyn eu harddangos ochr yn ochr.
  Bydd Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- **Gwefan**
  Mae gwefan Tir Coed yn ddwyieithog, gan gynnwys manylion am brosiectau hen a newydd, ynghyd a Chrynodebau Gweithredol o'r Adroddiadau Cynnydd a chyswllt i wefannau defnyddiol eraill. Bwriada Tir Coed gynnal a datblygu'r wasanaeth hon.

- ## Rheolaeth Mewnol

- **Penodiadau**

  Pan ddaw swydd yn wag bydd Tir Coed yn asesu anghenion ieithyddol y swydd er mwyn penderfynu os ydyw'r gallu i gyfathrebu â'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddymunol neu'n angenrheidiol.

  Hysbysebir swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd disgrifiadau swydd a deunyddiau cynhaliol ar gael i ymgeiswyr yn y ddwy iaith. Bydd cydraddoldeb cyfle yn flaenllaw o ran y penodiadau a wneir gan Tir Coed. Felly, mae Tir Coed yn cadw'r hawl i benodi yn seiliedig ar deilyngdod yr ymgeisydd. Ystyrir y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sgil ychwanegol.

  Bydd Tir Coed yn ymdrechu i sicrhau nifer addas o staff dwyieithog er mwyn cyrraedd gofynion Cynllun yr Iaith Gymraeg.

- **Mentrau Newydd**

  Bydd cydraddoldeb o gynrychiolaeth ieithyddol yn creu rhan ganolog o gynllunio datblygu mentrau a rhaglenni. Caiff hwn ei weithredu ym mhob agwedd o waith Tir Coed a chaiff hoblygiadau ariannu ar gyfer cydraddoldeb ieithyddol eu hystyried wrth gynllunio mentrau newydd.

- **Rhaglenni Cyfoes**

  Bydd pob rhaglen a menter gyfoes yn cael eu adolygu o safbwynt gweithredu Cynllun yr Iaith Gymraeg oddi fewn i ddeuddeg mis o'i fabwysiadu.

- ## Gweithredu ac Arolygu

  - **Ymholiadau a chwynion**

    Dylai pob ymholiad neu gŵyn ynglŷn â Chynllun yr Iaith Gymraeg cael eu cyfeirio i Gwyneth Davies:
    Ffôn – 01974 282476
    E-bost – gwyneth@ystwyth-tircoed.fsnet.co.uk

- **Cyngor ac arweiniad**
  Bydd Tir Coed yn ceisio ac yn ystyried cyngor ac arweiniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Estyn Llaw a CGGC wrth adolygu a gweithredu'r polisi hwn.

- **Adolygu**
  Bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed yn mesur gweithredu'r polisi hwn pob mis Hydref, yn y Cyfrafod Blynyddol, neu ar unrhyw achlysur arall, pan fydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystyried bod angen.

- Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan wneud defnydd o dempled ffurflen adrodd y Bwrdd.

- Ni fydd y cynllun hwn yn cael ei newid heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio ar ôl cyfnod o dair blynedd wedi iddo gael ei gymeradwyo.

## AMSERLEN GWEITHREDU

| | | |
|---|---|---|
| Penodiadau | Hysbysebir swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd disgrifiadau swydd a deunyddiau cynhaliol ar gael i ymgeiswyr yn y ddwy iaith. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| Cyfathrebiadau | Atebir pob cyfathrebiad ysgrifenedig a dderbynnir yn y Gymraeg yn Gymraeg. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| | Bydd neges peiriant ateb dwyieithog ar gael ym mhob swyddfa Tir Coed. | Gweithredwyd Ionawr 2009 |
| | Atebir pob galwad yn ddwyieithog. | Hyfforddiant erbyn Ebrill, 2009 |
| | Rhoddir yr hawl i'r rhai sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg wneud hynny. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| | Cyflwynir pob un o ddigwyddiadau Tir Coed yn ddwyieithog pan fo'n addas, cyn belled â bod Arweinyddion wedi eu hyfforddi â'r sgiliau angenrheidiol i gynnig gwasanaeth dwyieithog. | Yn cael ei weithredu pan fo Arweinydd sydd yn siarad y Gymraeg ar gael. |
| | Cynhyrchir pob deunydd hyrwyddo yn ddwyieithog. | Yn gweithredu ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| Delwedd Gyhoeddus | Cynhyrchir cardiau busnes a phob deunydd corfforaethol arall yn ddwyieithog | Gweithredir pan daw'r amser i'w hadnewyddu |
| | Bydd pob arwydd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu harddangos yn ddwyieithog. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| | Bydd datganiadau i'r wasg, papurau newydd ac i'r cyfryngau yn cael eu cynhyrchu yn iaith yr argraffiad/darllediad. | Gweithredwyd Ebrill, 2008 |
| | Bydd deunyddiau marchnata, fel ffurflenni, posteri, stondinau arddangos a paneli gwybodaeth yn cael eu dylunio yn ddwyieithog, i'r un safon o argraffu a'r un maint ffont, er mwyn eu harddangos ochr yn ochr. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| | Bydd Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog.<br>Bydd Crynodeb Gweithredol o'r Adroddiadau Cynnydd yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog. | Gweithredwyd Ebrill, 2008 |
| | Mae gwefan Tir Coed yn ddwyieithog. | Yn gweithredu ar hyn o bryd |
| Arolygu | Adolygir gweithredu ar y Cynllun gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Hydref.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith.<br><br>Arolygu'r cynllun ar ôl cyfnod o dair blynedd. | Mis Hydref<br><br>Blynyddol yn dilyn cymeradwyaeth<br><br>Ebrill 2012 |